# ESRC IAA/Cronfa Buddsoddi Cynhyrchedd Cenedlaethol DTP Cymru Cyflymu Cyllido Cydweithrediadau Busnes.

## Prosiectau yn gysylltiedig â Covid-19
## Dyddiad cau: 05 Mawrth 2021

## Crynodeb

Dyrannwyd £100,000 i DTP ESRC Cymru a Phrifysgol Caerdydd gan y Gronfa Buddsoddi Cynhyrchedd Cenedlaethol (NPIF) **i ehangu cyfleoedd ac adeiladu gallu a chapasiti myfyrwyr doethurol y gwyddorau cymdeithasol ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa er mwyn ymgysylltu a chydweithio â busnesau.**

I gyflawni hyn, mae Cyfrif IAA ESRC a Phartneriaeth Hyfforddiant Doethurol ESRC Cymru yn cydweithio i gyflawni gweithgareddau sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

a) Brocera a chefnogi cydweithrediadau â busnesau ar gyfer myfyrwyr doethuriaeth gwyddorau cymdeithasol ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa, gan gynnwys trwy nodi cyfleoedd ar gyfer lleoliadau, ysgoloriaethau cydweithredol a mecanweithiau eraill i ddarparu mewnwelediadau gwyddorau cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael â heriau busnes.
b) Datblygu sgiliau ymchwilydd gwyddorau cymdeithasol gyrfa gynnar ar gyfer gweithio gyda busnes, gan gynnwys trwy hyfforddiant entrepreneuriaeth, gweithdai a gweithgaredd arall sy'n canolbwyntio ar sgiliau.

## Galwad am Arian

Er mwyn cyflawni amcanion y cyllid, rydym yn galw am gynigion ar gyfer prosiectau sydd eisoes yn ymwneud ag **ymchwil sy'n gysylltiedig â Covid** ac sy'n dymuno **cymhwyso eu hymchwil yn y sector preifat yn benodol gyda busnesau.** Bydd prosiectau hefyd yn ceisio:

a) meithrin cysylltiadau gyda busnesau er mwyn sicrhau cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol;
b) cynnig cyfleoedd i ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ac i Ymchwilwyr Doethurol dreulio amser mewn busnes neu i staff busnes dreulio amser yn y Brifysgol er mwyn deall anghenion ei gilydd;

c) cynnwys myfyrwyr PhD a/neu ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa yn y prosiect cyfan er mwyn datblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth o anghenion busnes.

Mae dwy ffrwd y gellir gwneud ceisiadau oddi tanynt:

- **Cyllid dealltwriaeth busnes**
  - Hyd at £3,000
  - Ar gyfer peilot/archwilio a chwmpasu cydweithrediadau newydd â busnes
- **Cyllid Cyflymu Busnes**
  - Hyd at £10,000
  - Er mwyn i gyfnewidfeydd/lleoliadau o fewn diwydiant ddatblygu partneriaethau dyfnach ymhellach.

## Pwy sy’n gymwys

Gall y cynllun gefnogi unrhyw ymchwilydd doethurol y gwyddorau cymdeithasol neu ymchwilydd ar ddechrau ei yrfa o fewn unrhyw un o’r sefydliadau sy'n rhan o DTP Cymru, p'un ai a yw ESRC yn ariannu ei brif hyfforddiant neu astudiaethau ai peidio. Mae’n rhaid i geisiadau fod yn seiliedig ar ymchwil ym maes y gwyddorau cymdeithasol yn bennaf.

Mae’n rhaid mai myfyrwyr doethurol ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa yw prif fuddiolwyr yr holl weithgareddau a gefnogir. Gall ymgeiswyr gydweithio ag unrhyw fusnes o unrhyw sector, gan gynnwys menter gymdeithasol, er na ellir defnyddio'r cyllid i gefnogi gweithgareddau sy’n canolbwyntio’n bennaf ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Dylai gweithgaredd ganolbwyntio ar gefnogi cydweithredu’n uniongyrchol â busnes, ond gall gynnwys ymgysylltu â sefydliadau cyfryngol (*intermediary*) neu gynrychioliadol fel cyrff neu gymdeithasau masnach. Ymhlith yr enghreifftiau o gydweithrediadau a ariannwyd o’r blaen y mae:

- Cynnwys ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa mewn gweithgareddau cwmpasu Seicoleg Seibr a Ffactorau Dynol yn y diwydiant Hedfan.
- Mae ymchwilwyr sy'n gweithio gyda grŵp o fusnesau bach a chanolig yn cynhyrchu llysiau organig, o amgylch angen a rennir i wella eu gwaith casglu a rheoli data.
- Cydweithio â chwmni adeiladu i ymchwilio i bolisïau ar Ddiwylliant ac Ymddygiad yn y Diwydiant Adeiladu a’u datblygu.
- Ymchwilwyr yn adeiladu ac yn dyfnhau cysylltiadau yn y diwydiant Trafnidiaeth.

### Diffiniad o fusnes

➢ At ddibenion yr arian hwn, ein diffiniad o “fusnes” yw unrhyw sefydliad sy'n cael ei redeg ar sail gwneud elw. Yn y diffiniad hwn rydym yn benodol yn cynnwys **cymdeithasau masnach**, **cymdeithasau busnes** a **sefydliadau sector** sy'n cynrychioli busnesau.

- Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys **mentrau cymdeithasol**, sy'n cael eu rhedeg at ddiben cenhadaeth gymdeithasol ac ar sail gwneud elw.
- Nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys sefydliadau elusennol, ac eithrio pan fo gan y sefydliadau hyn is-gwmnïau masnachol/endidau cyfreithiol ar wahân sy'n cael eu rhedeg ar sail gwneud elw.
- Nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, gall deiliaid grantiau weithio gyda **Phartneriaethau Mentrau Lleol (LEP)** pan fydd gwneud hynny'n cyd-fynd â'r egwyddor o weithio gyda busnesau a'u cefnogi.

### Cymhwyster Academaidd

Mae'n rhaid i geisiadau gynnwys o leiaf un Ymchwilydd Doethurol neu un ymchwilydd ar ddechrau ei yrfa. Rydym yn annog eich bod yn cydweithredu ar draws y chwe sefydliad hefyd. Caiff ymgeiswyr hefyd eu hannog i gysylltu â'u timau trosiadol sefydliadol i helpu i ddatblygu'r cais.

### Cymhwysedd Myfyrwyr PhD

Mae pob Ymchwilydd Doethurol a phob Cymrawd Ôl-ddoethurol o unrhyw un o'r sefydliadau yn DTP ESRC Cymru yn gymwys. Mae hyn hefyd yn cynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan ESRC. Rydym yn annog ymgeiswyr i gysylltu â'u goruchwylwyr, a bydd angen iddynt fod yn brif ymchwilydd ar y cais a dylent gysylltu hefyd â'u timau Trosiadol Sefydliadol i helpu i ddatblygu'r cais.

## Gwneud cais am weithgareddau NPIF ABC yn ystod y pandemig COVID-19 a'u darparu

Rydym yn gwahodd ceisiadau sy'n mynd i'r afael ag effeithiau COVID-19 ar iechyd, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ac sy'n eu lliniaru.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gofio y bydd cyfyngiadau ar deithio ac wrth ffiniau gwledydd, mesurau pellhau cymdeithasol, mynediad cyfyngedig i gyfleusterau ac achosion newydd o covid a mesurau cyfyngu arnynt yn parhau i effeithio'n sylweddol ar gyflawni cydweithrediadau.

Felly, rydym yn cynghori ymgeiswyr yn gryf i ystyried mathau o gyflawni ar gyfer eu prosiectau sy'n lliniaru, cyn belled ag y bo modd, cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Gallai'r rhain fod trwy gyfyngu ar deithio, neu drwy ddefnyddio dulliau rhithwir o gydweithredu ond mae angen i ymgeiswyr ddangos yn glir yn eu cynigion ymarferoldeb eu cynlluniau prosiect o dan yr amgylchiadau presennol.

## Y Broses Ymgeisio

***Cais am gynigion:*** Mae'r alwad bellach ar agor ac rydym yn gofyn i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais a'i chyflwyno i esrciaa@caerdydd.ac.uk erbyn **12pm ddydd Gwener 5 Mawrth 2021 fan bellaf**. Rydym yn rhagweld y bydd prosiectau'n dechrau erbyn 01 Ebrill 2021 fan bellaf ac y byddant yn dod i ben erbyn **31 Awst 2021 fan bellaf.**

## Eithriadau

- **Prosiectau ymchwil**
- **Costau Anuniongyrchol, Costau Ystâd a Chostau a Ddyrannwyd yn Uniongyrchol (DA)** o'r ffurflen CAP. Byddai hyn yn cynnwys amser staff parhaol.
- **Nid yw eitemau o offer cyfalaf mawr** yn gymwys i gael cefnogaeth gan yr IAA. Mae'n bosibl y bydd prynu eitemau llai o offer yn gymwys, ond bydd angen cyfiawnhad cryf dros unrhyw achos am gefnogaeth yn esbonio pam mae angen yr offer i gael effaith.
- Ni chewch ddefnyddio cronfeydd IAA i gefnogi **costau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn eiddo deallusol neu â Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth**.

## *Y broses adolygu meddyginiaethau*

- Bydd datganiad ategol yn cael ei ychwanegu at bob cais gan gynrychiolydd o'r tîm trosiadol ym mhob sefydliad priodol, gan grynhoi cryfderau a gwendidau'r prosiect. Gallant hefyd ychwanegu gwybodaeth sydd ar goll o gais y mae'r ymgeisydd wedi'i datgelu mewn sgyrsiau datblygiadol.
- I adolygu ceisiadau, byddwn yn defnyddio adolygiad dall ac yn dileu enwau ymgeiswyr ynghyd ag unrhyw ddulliau eraill o'u hadnabod (pan fo hynny'n bosibl) cyn anfon ceisiadau at adolygwyr. Wrth ysgrifennu eich cais, **ysgrifennwch yn y drydydd person gyda'r nod o osgoi defnyddio unrhyw iaith a gwybodaeth adnabod os yw hynny'n bosibl.**
- Bydd pob cais yn cael ei adolygu gan ddau gynrychiolydd o'r panel cyllido sy'n cynnwys cydweithwyr academaidd a rhanddeiliaid allanol uwch. Bydd Cadeirydd y Panel yn edrych ar yr holl geisiadau
- Caiff pob cynnig ei asesu yn erbyn chwe maen prawf
  - Adran A: A yw'r cynnig yn cyflwyno achos cryf dros gyflawni nodau'r cyllid? (4 marc)
  - Adran B: Pa mor eglur yw'r esboniad o'r cyfleoedd posibl i'r ymchwilwyr a'r busnes dan sylw? (4 marc)
  - Adran C: A yw'r allbynnau a'r canlyniadau'n realistig? (4 marc)
  - Adran D: A yw'r adran ar reoli'r prosiect yn realistig ac a yw'n rhoi sicrwydd bod unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect wedi cael eu lliniaru? (4 marc)
  - Adran E: A yw'n werth am arian? A oes cyfiawnhad dros ddyrannu'r arian? (4 marc)
- Bydd y Panel yn cyfarfod i drafod y ceisiadau sydd wedi'u sgorio, a bydd argymhellion ynghylch cyllid yn cael eu gwneud i Gadeirydd y Panel a bydd y Cadeirydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch cyllid. Yna bydd y canlyniadau'n cael eu cyfleu i ymgeiswyr.

## *Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant*

Mae Prifysgol Caerdydd yn ymrwymo i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl arferion a gweithgareddau, a'i nod yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd rhag gwahaniaethu ac yn seiliedig ar werthoedd urddas, cwrteisi a pharch. Nod y

sefydliad yw cofleidio amrywiaeth yn ein holl weithgareddau ac mae’n cydnabod gyda balchder bod amrywiaeth a gwahaniaeth yn hanfodol er lles a datblygiad dyfodol y Brifysgol.

## Gofynion adrodd

Er mwyn cwrdd â gofynion ESRC, rydym yn gofyn i bob prosiect ddarparu'r wybodaeth ganlynol, a gesglir naill ai ar y cam ymgeisio neu adrodd:

- Y sefydliadau academaidd ac anacademaidd sy’n cymryd rhan
- Nodau ac amcanion y prosiect
- Cyfraniadau ariannol ac o fath arall gan bartneriaid
- Allbynnau a chanlyniadau a gyflawnir yn ystod y prosiect
- Allbynnau a chanlyniadau a gyflawnir ar ôl y prosiect (fel rhan o'n gwaith dilynol blynyddol safonol i brosiectau a ariennir gan IAA)
- Cyllid ychwanegol y gwnaed cais ar ei gyfer (GCRF ac eraill) (fel rhan o'n gwaith dilynol blynyddol safonol i brosiectau a ariennir gan IAA)

Mae’n bosibl y byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth os byddwn yn derbyn ceisiadau ychwanegol am wybodaeth gan ESRC.

## Amserlen

| | |
|---|---|
| Ionawr 2021 | Cyhoeddi galwad newydd am arian |
| | |
| 5 Mawrth 2021 | Dyddiad cau |
| | |
| Ebrill 2021 | Prosiectau yn dechrau |
| | |

### Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am gyllid NPIF ABC a chopïau o'r ffurflen gais, cysylltwch â'r Rheolwr Effaith yn yr Adran Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi ym Mhrifysgol Caerdydd (E-bost: esrciaa@caerdydd.ac.uk Ffôn: x10520).

# Cwestiynau Cyffredin ynghylch Cyfrif Cyflymu Effaith ESRC NPIF ABC

## Gwyddorau Cymdeithasol

### Beth sy'n cael ei gwmpasu gan ddiffiniad ESRC o wyddor gymdeithasol?

Ewch i www.esrc.ac.uk/funding-and-guidance/applicants/proposal-classifications-ESRC-disciplines.aspx i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'r ESRC yn ei ddiffinio fel gwyddorau cymdeithasol.

Mae'n bosibl hefyd y bydd edrych ar ddatganiad ESRC & AHRC ar gwmpas y pwnc o gymorth:

https://ahrc.ukri.org/documents/policy/interfaces-between-the-arts-and-humanities-and-the-social-sciences/

### Sut rydw i'n gwybod bod fy mhrosiect o fewn y disgrifiad o'r gwyddorau cymdeithasol?

Gweler y wybodaeth uchod. Os oes gennych ymholiad am eich prosiect penodol, cysylltwch â Lillian Matovu, Rheolwr Effaith (E-bost: MatovuL1@caerdydd.ac.uk Ffôn: x10520), yn y lle cyntaf.

### A oes angen i'r prosiect fod wedi cael cefnogaeth ESRC o'r blaen?

Dim o gwbl - mewn gwirionedd mae'r ESRC yn awyddus i ariannu effaith yn deillio o ymchwil gwyddorau cymdeithasol na chafodd ei ariannu drwyddynt.

### A yw staff â phrosiectau ymchwil a ariennir gan ESRC yn gymwys i wneud cais?

Ar y cyfan, ydynt, er bod ESRC wedi ailadrodd yn bwrpasol nad yw'r cyllid wedi'i fwriadu fel cyllid dilynol ar gyfer prosiectau a ddylai fod wedi cynnwys costau digonol ar gyfer elfen effaith eu grant trwy'r adran 'Llwybrau i Effaith' yn eu cais am gyllid, a dyna'r brif ffordd y mae'r ESRC eisiau ariannu cynhyrchu effaith o hyd.

Os ydych chi'n gysylltiedig â chanolfan a ariennir gan ESRC, trafodwch eich cymhwysedd gyda'r Rheolwr Effaith yn y lle cyntaf.

### A yw'r cyllid yn agored i bob Coleg yn y sefydliadau DTP?

Ydy, i bob rhan o'r sefydliadau cyhyd â bod yr ymchwil sylfaenol yn dod o fewn diffiniad yr ESRC o wyddor gymdeithasol (gweler uchod).

### Pwy all wneud cais?

**Gall ymchwilwyr ac ymchwilwyr doethurol yn holl Sefydliadau DTP Cymru**, amser llawn a rhan-amser, ac ar unrhyw gam yn eu gyrfa wneud cais cyhyd â bod yr ymchwil sylfaenol yn wyddor gymdeithasol a bod ganddyn nhw'r amser i ymrwymo i sicrhau bod eu prosiect yn llwyddiant. Ar gyfer deiliaid swyddi Cysylltiol Ymchwil, mae hyn yn golygu y bydd angen i ariannwr eich swydd fod yn fodlon i chi reoli grant os yw'n llwyddiannus. Bydd angen i ymchwilwyr doethurol wneud cais gyda'u goruchwyliwr neu ymchwilydd arall a dyrennir rôl ymchwilydd arweiniol y prosiect i'r goruchwyliwr neu ymchwilydd hwnnw. Rydym yn cynghori eich bod yn cysylltu â'ch goruchwyliwr ynghylch y ffordd orau i weithredu. Os ydych chi'n aelod rhyngwladol o staff, bydd angen i chi wirio nad yw'r gwaith hwn yn effeithio ar delerau eich fisa.

## Sefyllfa Ariannol

### A oes angen i mi sicrhau cyllid cyfatebol?

Nid yw cyllid cyfatebol yn hollol angenrheidiol, er y bydd y panel yn ystyried lefel y cyllid gan Ysgolion a phartneriaid allanol wrth ystyried ceisiadau. Mae'r ESRC yn hoffi gweld eu buddsoddiad yn denu arian o ffynonellau eraill, felly bydd hyn yn rhan o'r broses asesu. Yn arbennig ar gyfer prosiectau sy'n gweithredu gyda phartneriaid masnachol, bydd y panel eisiau gweld arwydd bod arian cyfatebol.

### Beth sy'n gymwys fel cyfraniadau paru/o fath arall?

Bydd cyfraniadau uniongyrchol i'r prosiect yn cael eu hystyried fel cyllid cyfatebol. Mae'n bosibl ystyried unrhyw gyfraniadau eraill gan bartneriaid (amser staff, lleoliadau, gofod swyddfa, teithio ac ati) fel cyfraniadau o fath arall.

## Fel aelod o staff parhaol, a gaf wario'r arian ar amser staff?

Mae costau staff yr eir iddynt yn uniongyrchol yn gymwys i gael cymorth. Nid yw costau anuniongyrchol a chostau ystadau yn gymwys a dylai Ysgol y Prif Ymchwilydd eu talu. **Ni ddylid** costio costau goruchwylio academaidd y Prif Ymchwilydd gael eu cynnwys mewn cynigion, naill ai fel costau uniongyrchol neu fel cronfeydd cyfatebol.

## A gaf brynu offer mawr?

Na chewch, mae offer mawr yn anghymwys. Mae'n bosibl y bydd offer bach yn gymwys cyhyd â bod cyfiawnhad rhesymegol da yn cael ei roi ac y bydd yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r effaith.

## A gaiff unrhyw gydweithredwyr anacademaidd dderbyn cyllid?

Caiff ceisiadau gynnwys costau i ad-dalu cydweithredwyr anacademaidd os ydynt yn cyfrannu gwasanaeth penodol. **Ni ellir** ad-dalu partneriaid dim ond oherwydd eu bod yn cymryd rhan yn y prosiect. Mae asesu ymrwymiad partneriaid i'ch prosiect yn allweddol i fesur y tebygolrwydd y byddant yn rhoi effaith ar waith, a gall rhai prosiectau pan fydd partneriaid yn mynnu ad-daliad fethu ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Cysylltwch â'r Rheolwr Effaith i gael eglurhad.

## A all y cronfeydd dalu am gostau cyhoeddi?

Ni fydd yr arian yn talu am gyhoeddi ymchwil. Mae'n bosibl y bydd y cronfeydd yn talu cost cyflwyno canfyddiadau ymchwil mewn fformat a fydd yn arbennig o hygyrch i gynulleidfa darged (ee llunwyr polisïau) ond bydd angen cynllun rhesymegol yn esbonio sut y byddwch yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r cyhoeddiad er mwyn osgoi eistedd ar silff yn unig.

## Pwy fydd yn dal y gyllideb?

Bydd yr Ysgol y mae'r prif ymgeisydd yn perthyn iddi yn dal y gyllideb, a bydd unrhyw arian a dderbyniwch yn cyfrif fel incwm ymchwil i'r Ysgol.

## Pwy fydd yn gwneud y trafodion ariannol i mi?

Rwy'n rhagweld y bydd eich gweinyddwyr Ysgol neu adran yn ymdrin â'r trafodion ar eich rhan, dan eich cyfarwyddyd chi.

## A gaf ddefnyddio'r arian ar gyfer partneriaid rhyngwladol neu deithio rhyngwladol?

Os ydych yn bwriadu cynhyrchu effaith ar raddfa ryngwladol, efallai y bydd yn bosibl cyfiawnhau cyllid ar gyfer partneriaid rhyngwladol a theithio, ar yr amod bod y partneriaid wedi dangos ymrwymiad i'r ymchwil/prosiect dan sylw.

## A fydd o gymorth os oes gennyf bartneriaid sydd am roi arian i mewn i'r cais?

Mae cyllid cyfatebol gan bartneriaid bob amser yn arwydd da o ymrwymiad partner a bydd yn cael ei ystyried ar y ffurflen gais ynghyd â'r wybodaeth arall rydym yn gofyn amdani. Gall hyn fod naill ai mewn arian neu o ryw fath arall.

## Am ba hyd y bydd y cyllid yn para?

Rydym yn rhagweld y bydd prosiectau a ariennir trwy Gronfa NPIF ABC yn dechrau ar 1 Ebrill 2021 ac yn gorffen erbyn 31 Awst 2021. Mae'n rhaid i'r holl gyllid gael ei wario erbyn y dyddiad hwn gan fod hwn yn ddyddiad cau a bennwyd gan ESRC.

### Pa awdurdodiadau sydd eu hangen arnaf?

Yn y lle cyntaf, yr argymhelliad yw bod staff academaidd yn trafod cynigion gyda Chyfarwyddwr Ymchwil eu Hysgol. Bydd angen iddynt hefyd gael cymeradwyaeth Pennaeth eu Hysgol ar gyfer y prosiect trwy ffurflen CAP cyn ei gyflwyno.

Ar gyfer Ymchwilwyr Doethurol, rydym yn argymell eich bod yn trafod eich cynnig gyda'ch goruchwyliwr, a all, o bosibl, ei gynnig ei hun fel yr ymchwilydd arweiniol ar y prosiect neu a fydd yn gallu cymeradwyo dewis arall.

### A fydd angen i mi wneud ffurflen Cost a Chymeradwyaeth (CAP) ar gyfer y prosiect?

Bydd, bydd angen ffurflen CAP ar gyfer pob cynnig llawn cyn ei gyflwyno i'r panel, a bydd angen cyflwyno hwn i'r Rheolwr Effaith ar neu cyn y diwrnod cau gyda chymeradwyaeth Pennaeth yr Ysgol. Rydym yn cynghori eich bod yn cysylltu â'ch timau trosiadol neu reolwyr ymchwil yn eich sefydliadau er mwyn trefnu i hyn gael ei gymeradwyo.

### Rwyf i ar gontract rhan-amser. A gaf ddefnyddio'r cyllid i weithio oriau hirach?

Na chewch, ni fwriedir i'r cyllid ychwanegu at gostau staff y dylai'r Ysgol eu talu.

### A ellir ystyried prifysgolion eraill yn 'bartneriaid allanol'?

Na ellir: gan 'bartner allanol' neu 'sefydliadau partner' rydym yn golygu sefydliadau anacademaidd.

## Amserlenni

### Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i'm cais gael ei asesu?

- 05 Mawrth 2021 - Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:
- 1 Ebrill 2021 - Prosiectau'n dechrau
- 31 Awst 2021 - mae’n rhaid bod pob prosiect wedi dod i ben ac wedi gwario ei arian er mwyn bodloni gofynion ESRC.

### Pa mor gyflym y gallaf i/ydw i angen dechrau’r prosiect?

Dylid sefydlu cronfeydd ariannol o fewn ychydig wythnosau i'r penderfyniad cyllido, felly dylai fod yn bosibl dechrau prosiectau yn brydlon.

## Prosiectau busnes

### A yw cydweithredu â sefydliadau/grwpiau allanol yn orfodol?

Ar gyfer y cyllid hwn mae'n rhaid bod gennych bartner busnes.

### Beth sy'n cyfrif fel busnes?

At ddibenion y ffrwd cyllido hwn yn unig, ni fyddwn yn cefnogi prosiect os mai elusennau, sefydliadau sector cyhoeddus neu sefydliadau trydydd sector yw’r unig bartneriaid. Bydd y ffocws ar sefydliadau sy'n bodoli i gynhyrchu elw i gyfranddalwyr/perchnogion/partneriaid neu'r rheini fel John Lewis/Dŵr Cymru sy'n darparu gwasanaeth busnes ond yn ail-fuddsoddi unrhyw warged i staff neu gwsmeriaid.

- At ddibenion yr arian hwn, ein diffiniad o “fusnes” yw unrhyw sefydliad sy'n cael ei redeg ar sail gwneud elw. Yn y diffiniad hwn rydym yn benodol yn cynnwys **cymdeithasau masnach**, **cymdeithasau busnes** a **sefydliadau sector** sy'n cynrychioli busnesau.

- Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys **mentrau cymdeithasol**, sy'n cael eu rhedeg at ddiben cenhadaeth gymdeithasol ac ar sail gwneud elw.
- Nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys sefydliadau elusennol, ac eithrio pan fo gan y sefydliadau hyn is-gwmnïau masnachol/endidau cyfreithiol ar wahân sy'n cael eu rhedeg ar sail gwneud elw.
- Nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, gall deiliaid grantiau weithio gyda **Phartneriaethau Mentrau Lleol (LEP)** pan fydd gwneud hynny'n cyd-fynd â'r egwyddor o weithio gyda busnesau a'u cefnogi.

### A gaf ddefnyddio'r arian i ariannu prosiect ymchwil?

Na chewch, nid yw prosiectau ymchwil yn gymwys.

### A gaf gefnogi prosiect sydd eisoes yn digwydd?

Ni fwriedir y bydd y cyllid yn gwneud yn iawn am ddiffygion mewn prosiectau sydd heb eu hariannu'n ddigonol. Fodd bynnag, os gellir cyflwyno achos sy'n esbonio pam mae'r cyllid ar gyfer gweithgaredd ychwanegol, mae'n bosibl y bydd yn gymwys.

### A gaf ofyn am fwy nag un prosiect?

Cewch, nid oes cyfyngiad ar nifer y prosiectau y gall un aelod o staff eu cyflwyno/cymryd rhan ynddynt, er mai ansawdd fydd y prif faen prawf.

## Ceisiadau

### A fyddaf yn cael adborth ar fy nghais?

**Rydym yn annog ymgeiswyr i ymgynghori â'u timau trosiadol sefydliadol yn ystod proses datblygu eu cynnig, bydd y timau'n darparu adborth adeiladol ac yn cefnogi datblygiad y cais terfynol.**

Ar ôl i chi gyflwyno cynnig, bydd pob ymgeisydd, yn llwyddiannus ac yn aflwyddiannus, yn cael adborth adeiladol sy'n cynnwys penderfyniad y panel, eu rhesymau, ac ystyriaethau ar gyfer gwella os oes angen.

### Pa fath o adroddiad diwedd prosiect y bydd angen i mi ei ddarparu?

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd llwyddiannus lunio adroddiad diwedd prosiect a fydd yn cynnwys dogfen naratif a data meintiol i ddangos llwyddiant neu fel arall y prosiect. Dylai'r adroddiad terfynol hwn fod yn drylwyr, ond nid yn feichus.

### Beth os na fyddaf yn gorffen y prosiect?

Os na fydd y prosiectau'n llwyddo am ba reswm bynnag, byddwn yn gofyn am adroddiad i archwilio'r rhesymau dros beidio â gorffen y prosiect ac i dynnu sylw at broblemau a risgiau y gall y Bwrdd Cynghori ar Effaith eu codi a'u hystyried a bwydo i mewn i sut mae'r Brifysgol yn cynllunio ar gyfer gweithgaredd effaith yn y dyfodol.

### Ydw i'n fwy tebygol o fod yn llwyddiannus os byddaf i'n gofyn am lai?

Bydd y panel yn ymwybodol mai dim ond swm cyfyngedig o gyllid sydd ar gael ac ni fydd yn debygol o ariannu nifer fawr o brosiectau drud iawn. Bydd ceisiadau sydd â chyfiawnhad rhesymegol da dros y cyllid y gofynnwyd amdano yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau, ac mae gwerth am arian yn rhan o'r broses asesu.

Rydym yn annog ymgeiswyr i ystyried sut y gallent gyflawni nodau eu prosiect gyda llai o alw am adnoddau.

## Beth yw'r meini prawf y byddwch chi'n eu defnyddio i asesu ceisiadau?

Gweler y canllawiau cyllido sydd â rhagor o fanylion am feini prawf.

## A fyddaf yn gwneud yn well os yw fy mhrosiect yn rhyngddisgyblaethol neu'n draws-ysgolion?

Mae croeso mawr i brosiectau rhyngddisgyblaethol a thraws-ysgolion, er na fyddwn yn rhoi pwyslais penodol ar y prosiectau hyn ac eithrio digwyddiadau a symposia sy'n gofyn am gyfranogiad gan fwy nag un grŵp ymchwil.

## Pa mor gyflym y byddaf yn gwybod fy mod wedi llwyddo neu beidio?

O fewn pythefnos.

## Pwy yw'r bobl y gallaf gysylltu â nhw i ofyn am y cynnig.

Cysylltwch â Lillian Matovu, rheolwr effaith ESRC (E-bost: MatovuL1@caerdydd.ac.uk Ffôn: x10520), yn y lle cyntaf i drafod eich cynnig.

## A fyddaf yn cael gostyngiad mewn gwaith addysgu/gweinyddol i wneud y prosiect?

Bydd unrhyw ostyngiad mewn addysgu a gweinyddiaeth yn fater i'r ymgeisydd a'i Ysgol/ yr adran sy'n cyflogi'r ymgeisydd.

## Nawr bod DTPs hefyd yn cefnogi myfyrwyr ôl-ddoethurol trwy gymrodoriaethau ESRC, a all y cyllid fod o fudd i fyfyrwyr ôl-ddoethurol yn y DTPs neu a yw'n gyfyngedig i PGRs (myfyrwyr PhD)?

Mae cymrodorion ôl-ddoethurol yn staff ymchwil ac felly maent yn dod o dan yr arian sydd ar gael i'r sefydliadau hynny yn y DTP. Rydym yn gwerthfawrogi y gellir dyrannu nifer o Gymrodoriaethau Ôl-ddoethurol ESRC i bartneriaid mewn sefydliadau DTP nad oes ganddynt IAAs ac o'r herwydd byddem yn ystyried cynnwys cynigion o'r fath.

# Rhagor o wybodaeth:

I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych gwestiynau, cysylltwch â Lillian Matovu, Rheolwr Effaith (E-bost: MatovuL1@caerdydd.ac.uk Ffôn: x10520).